



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a  
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru  
Regional School Effectiveness &  
Improvement Service for North Wales

# Bwletin GwE

## Gweithdy Penaethiaid Newydd ★NEWYDD★

DYDD IAU, 8 MAWRTH 2018 – 8:45YB-5:00YH – OpTIC, LLANELWY

Gweithdy Rhanbarthol GwE ar gyfer Penaethiaid Newydd: 'Arweinyddiaeth Effeithiol mewn Byd sy'n Brysur Newid' Ar gyfer pob Pennaeth newydd yn ystod blwyddyn gyntaf eu swydd sylweddol. Mae croeso i Benaethiaid Dros Dro yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

Ceir rhagor o fanylion am y gweithdy a manylion cofrestru wrth [glicio yma](#).

## Gweithdai "Cynllunio, Gwneud, Adolygu."

DYDD MERCHER, 28 CHWEFROD 2018 A DYDD IAU, 1 MAWRTH 2018

Y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yw'r llwyfan pennaf ar gyfer eich dysgu proffesiynol. Wedi'i lansio gan Lywodraeth Cymru (drwy CGA) fel e-bortffolio cenedlaethol wedi'i safoni, gellir ei ddefnyddio i gofnodi a myfyrio ar eich datblygiad proffesiynol.

Bydd y sesiwn hon, a ddarperir gan y CGA am ddim i ymarferwyr addysg, yn dangos i chi sut i ddatblygu portffolio yn gyflym ac yn hawdd.

Am ragor o wybodaeth, i gofrestru ac am restr o leoliadau, [cliciwch yma](#). **\*CYFLE OLAF I GOFRESTRU\***

## Cynhadledd Llwyddiant i Bawb: Creu Diwylliant "Ysgolion sy'n Meithrin" o fewn Sefydliadau

DYDD MAWRTH, 6 MAWRTH 2018 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Bydd GwE yn cynnal Cynhadledd i godi ymwybyddiaeth o'r themâu allweddol sy'n codi yn y maes lles, o ran cefnogi plant sy'n derbyn gofal/dysgwyr bregus, a chysylltiadau â chodi cyflawniad addysgol.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

**Mae'r ddolen i gofrestru yn fyw.**

\*\*\*\*\*DYDDIAD I'CH DYDDIADUR\*\*\*\*\*

## Cynhadledd Uwchradd – Arwain Addysgu a Dysgu

DYDD MAWRTH, 03 GORFFENNAF 2018 – MANYLION COFRESTRU I DDILYN

\*\*\*\*\*

## Cynhadledd Flynyddol Penaethiaid Uwchradd Llywodraeth Cymru

DYDD MERCHER, 7 MAWRTH 2018 A DYDD IAU, 8 MAWRTH 2018 – GWESTY'R FRO, BRO MORGANNWG

Mae'r [llythyr yma](#) gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn eich gwahodd i gynhadledd genedlaethol i benaethiaid uwchradd a gynhelir ar 7 a 8 Mawrth, 2018. Carwn dynnu eich sylw at y cymal yn y llythyr sy'n nodi: 'Gyda'n gilydd rydym yn gwneud penderfyniadau pwysig ar ein gallu cyd-weithredol i roi siâp ar system addysg sydd yn fodern, yn arloesol ac ardderchog. Dyna pham ei bod yn hanfodol fod pob ysgol uwchradd yn cael ei chynrychioli yn y gynhadledd gan ei phennaeth'.

Carwn annog pob pennaeth uwchradd ar draws y rhanbarth i fynychu fel bod eich llais yn cael ei gynrychioli'n llawn yn y gynhadledd.

I gofrestru, [cliciwch yma](#).

Anfonwch unrhyw ymholiad sydd gennych yn uniongyrchol at [Leanne.Thomas21@llyw.cymru](mailto:Leanne.Thomas21@llyw.cymru)

## Cynhadledd i Arweinwyr Chweched Dosbarth ★NEWYDD★

DYDD IAU, 22 MAWRTH 2018 – GLASDIR, LLANRWST

Bydd GwE yn cynnal cynhadledd wedi'i hanelu at arweinwyr ac uwch arweinwyr chweched dosbarth sy'n gyfrifol am godi safonau ym Mlynnyddoedd 12 a 13. Y prif siaradwr fydd Tracey Greenaway-Jones a fydd yn canolbwyntio ar ei phrofiad o godi safonau a gwella ansawdd.

## Hyfforddiant 'Talk 4 Writing' gan Julia Strong

Cynhelir diwrnod 2 o hyfforddiant 'Talk 4 Writing' gan Julia Strong ddydd Mercher, 28 Chwefror 2018 yn Glasdir, Llanrwst. Dilynwch y [ddolen hon](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru. **\*CYFLE OLAF I GOFRESTRU\***

### Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

#### Cyfarfodydd Rhwydwaith Rhifedd a Llythrennedd Cynradd ★NEWYDD★

Diben y cyfarfod Rhwydwaith Llythrennedd/Rhifedd hanner diwrnod hwn yw dod ag Arweinwyr Llythrennedd/Rhifedd ynghyd mewn cyfarfod anffurfiol i rannu, trafod ac archwilio'r syniadau diweddaraf ym maes datblygu llythrennedd a rhifedd yn ein hysgolion cynradd. Hwn fydd y cyfarfod cyntaf o ddau yn ystod y flwyddyn ysgol hon. [Cliciwch ar y dolenni isod am ragor o fanylion ac i gofrestru: Cyfarfodydd Llythrennedd | Cyfarfodydd Rhifedd](#)

#### Cynnal Teithiau Dysgu Effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen

Gweithdy ar gyfer Penaeithiaid a Dirprwyon (addas ar gyfer unigolion sydd â chefnidir o addysgu yn CA2 neu y rhai hynny sy'n dymuno derbyn arweiniad pellach ynglŷn â beth yw safonau a darpariaeth dda neu well yn y Cyfnod Sylfaen).

**COFRESTRU YN AWR AR AGOR**  
[Parhewch i ddarllen yma...](#)

#### Talk4Writing – Ysgrifennu Ffeithiol i'r Cyfnod Sylfaen/CA2

Dyma gyfle cyffrous i ysgolion y rhanbarth gael hyfforddiant swyddogol eto ar Talk4Writing. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

#### Darllen Dan Arweiniad a Darllen yn Drawsgwricwlaidd yn CA2

Dyma gyfle cyffrous i ysgolion y rhanbarth gymryd rhan mewn gweithdy hyfforddiant sy'n ceisio cyfoesi ac adnewyddu'r gweithgareddau darllen ar lefel uwch, Darllen dan Arweiniad, a darllen yn drawsgwricwlaidd yn CA2. [Parhewch i ddarllen yma...](#)

#### Datblygu Cymhwysedd Digidol yn y Cyfnod Sylfaen

**DYDD MERCHER, 18 EBRILL 2018 – 9:30YB-3:00YP – GALERI, CAERNARFON**  
**\*NODYN ATGOFFA\***

Dyma gyfle arbennig i athrawon y Cyfnod Sylfaen ddatblygu eu gwybodaeth a'i dealltwriaeth o wahanol linynnau o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Ceir rhagor o fanylion am y digwyddiad hwn [yma](#).

#### Cymhwysedd Digidol

[Cliciwch yma](#) i weld yr holl gyrsiau newydd sydd wedi eu cynnwys.

### Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

#### "Y Tu Hwnt i SEREN"

**DYDD LLUN, 26 CHWEFROR 2018 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO – 3:30YP-6:30YP**

Digwyddiad ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 12 a 13 SEREN y Gogledd.

Cyfleoedd cyflogaeth ar draws gogledd Cymru, y gogledd-orllewin ac yn genedlaethol.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

#### Cwrs Cymraeg

**DYDD MERCHER, 28 CHWEFROR 2018 – GLASDIR, LLANRWST**

Cwrs i athrawon sy'n addysgu Cymraeg wedi'i anelu at ANG a hefyd athrawon sy'n dysgu Cymraeg y tu allan i'w pwnc arferol.

Cyfranwyr: Ymarferwyr rhagorol o'r rhanbarth gan gynnwys Llio Japheth o Ysgol Dyffryn Conwy. Bydd arweiniad ar addysgu gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu yn llwyddiannus.

I gofrestru, cysylltwch ag [eirianharris@gwegogledd.cymru](mailto:eirianharris@gwegogledd.cymru) Lle i 20 yn unig felly y cynta' i'r felin...

### Newyddion Uwchradd

#### Sgiliau Cyflogadwyedd Pobl Ifanc

★NEWYDD★

Adnodd gweledol sy'n ychwanegu gwerth at weithgaredd dysgu 'sgiliau cyflogadwyedd'.

[Cliciwch yma](#) i wyllo'r ffilm. Am gopi o'r pdf, [cliciwch yma](#).

#### Adrodd ar Berfformiad Ysgolion – Mesurau Perfformiad CA4

[Cliciwch yma](#) am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ar fesurau perfformiad cyfnod allweddol 4 gan gynnwys eglurhad o'r polisi newydd ar gyfer sefyll arholiadau'n gynnar, a sut bydd yn effeithio ar weithdrefnau ysgolion wrth gofrestru disgyblion.

Mae'n bosib cofrestru ar gyrsiau sydd yn cael eu cynnal o rŵan hyd at ddiwedd Gorffennaf 2018.

## Hyfforddiant Mr P ar gyfer Athrawon

### Cyfnod Sylfaen

DYDD GWENER, 23 MAWRTH 2018 – TŶ MENAI, BANGOR – 9:00YB-4:00YP

Mae GwE yn cynnig cyfle arbennig i athrawon y Cyfnod Sylfaen fynychu hyfforddiant gyda Mr P. Cewch gyfle i ddysgu am amrywiaeth o syniadau ar sut i gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu drwy ddefnyddio technoleg symudol ac offer ar-lein.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru. \*LLEFYDD YCHWANEGOL BELLACH AR GAEL\*

## Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

### GWYBODAETH BWYSIG I CALU A CHYMORTHYDDION DYSGU

#### A. “Cyfathrebu, Gwaith Tîm ac Arwain Eraill,”

15 a 20 Mawrth 2018

Rhaglen **newydd** undydd ar gyfer cymorthyddion dysgu a CALU sy'n cefnogi ac yn arwain ar brosiectau ysgol a/neu sy'n rheoli eraill yn yr ysgol.

Ni fydd unrhyw gost am fynychu'r rhaglen a thelir costau llanw.

Am fanylion pellach ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

#### B. Cynhadledd CALU, 2 Mawrth 2018, Venue Cymru, Llandudno

Cynhadledd i gymorthyddion dysgu sydd eisoes â'r statws CALU. Cyfle i gael gwybodaeth gyfredol am: y Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol; statws proffesiynol; rolau Cymorthyddion Dysgu; Cwricwlwm i Gymru a'r Safonau newydd.

Ni fydd unrhyw gost am fynychu'r gynhadledd a thelir costau llanw.

Am fanylion pellach ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

**\*CYFLE OLAF I GOFRESTRU\***

### ATHRAWON NEWYDD GYMHWYSO:

#### Hyfforddiant i Fentoriaid Sefydlu Ysgol

**★NEWYDD★**

SIR DDINBYCH – Dydd Mercher, 21 Chwefror 2018

[4:00yp tan 5:30yh]– Neuadd y Sir, Rhuthun

CONWY – Dydd Mawrth, 27 Chwefror 2018 [4:00yp tan

5:30yh]– Ysgol Aberconwy

I gofrestru, cysylltwch ag [eifion.roberts@outlook.com](mailto:eifion.roberts@outlook.com) gan nodi pa ddyddiad yr ydych yn dymuno ei fynychu.

## Cyfleoedd Hyfforddi Eraill

### Digwyddiadau a gynhelir gan EDAU:

**★NEWYDD★**

#### • ‘Kids in Museums’

Dydd Mawrth, 6 Mawrth 2018 – 4:00yp-6:00yp – Optic, Llanelwy

#### • Mantell yr Arbenigwr

Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2018 – 4:00yp-6:00yp – Ystafell Erddig, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam

#### • O STEM i STEAM

Dydd Iau, 22 Mawrth 2018 – 4:00yp-6:00yp – Storiell, Bangor

Ceir rhagor o fanylion am y digwyddiadau uchod ar ein gwefan drwy [glicio yma](#).

### Cyflwyniad i Explorify **★NEWYDD★**

#### • DYDD MAWRTH, 13 MAWRTH 2018 – TŶ MENAI, PARC MENAI

#### • DYDD MERCHER, 14 MAWRTH 2018 – TECHNIQUEST GLYNDŴR, WRECSAM

Cyfle i fynychu sesiwn ymgyfarwyddo i athrawon yn Techniquet ar sut i ddefnyddio'r adnoddau anhygoel AM DDIM sydd ar gael i chi.

Rhagor o fanylion i'w cael [yma](#).

## Cyfleoedd gyda GwE

## Swyddog Cefnogol – Dros Dro (Cyfnod Mamolaeth) ★NEWYDD★

**Lleoliad:** Swyddfeydd GwE, Bae Colwyn

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

**DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 8 MAWRTH 2018**

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Bethan Eleri Roberts / Susan Owen Jones ar 0300 500 8087 neu e-bost

[bethaneleriroberts@gwegogledd.cymru](mailto:bethaneleriroberts@gwegogledd.cymru) / [susanowenjones@gwegogledd.cymru](mailto:susanowenjones@gwegogledd.cymru)

Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#). Am ffurflen gais, [cliciwch yma](#), neu cysylltwch â 01286 679076.

## Hysbysebion a Newyddion

### Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel: Enillwyr y gystadleuaeth ★NEWYDD★

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn **Ysgol Hafod y Wern**, Wrecsam ar ddedd yn fuddugol yng nghategori cynradd yng nghystadleuaeth 'Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2018.' Da iawn yn ogystal i **Ysgol y Rofft** am ennill gwobr canmoliaeth uchel yn yr un gystadleuaeth am gyfansoddi cân ynglŷn â Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel.

Gallwch weld yr holl geisiadau sydd wedi ennill gwobr [yma](#).

### Gwobr Disgyblion y Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol 2018

**GALLWCH BELLACH GYFLWYNO EICH CAIS AM WOBR DISGYBLION Y CYNGOR DYSGU DIGIDOL CENEDLAETHOL 2018**

Bydd Gwobr Disgyblion y Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol yn cydnabod cyflawniadau disgybl neu grŵp o ddisgyblion o ysgol a gynhelir neu goleg yng Nghymru sydd naill ai wedi defnyddio technoleg mewn ffordd arloesol neu wedi creu deunydd digidol gwreiddiol rhagorol. Rhaid i geisiadau am y wobwr gael eu cyflwyno gan athrawon.

Cyflwynwch eich cais erbyn **DYDD GWENER, 23 MAWRTH 2018 AM 17.00**.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

**Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter**

[GwEGogledd.Cymru](http://GwEGogledd.Cymru)

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan

